

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cox and Hitchcock Dental Group,
Ffordd Llanthewy /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad arolygu: 11 Chwefror
2020

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mai 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cox and Hitchcock Dental Group yn 2 Ffordd Llanthewy, Casnewydd, NP20 4JR, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 11 Chwefror 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Cox and Hitchcock Dental Group yn darparu gofal diogel ac effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar y claf mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau gan drefniadau rheoli ac arwain da.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd gwybodaeth am hylendid y geg i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros
- Roedd y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r cyfleusterau clinigol yn addas at y diben
- Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen arddangos arwydd dim smygu yn y practis.
- Rhaid i gofnodion y cleifion adlewyrchu'r canfyddiadau a'r trafodaethau a gafwyd â'r cleifion yn ystod apwyntiadau yn gywir.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cox and Hitchcock Dental Group yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm mawr o staff. Mae'r 27 aelod o staff yn cynnwys deintyddion, hylenywyr, nyrsys deintyddol cofrestredig, derbynyddion, rheolwr practis a rheolwr clinigol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan Cox and Hitchcock Dental Group brosesau addas ar waith er mwyn i'r cleifion gael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig am gynnal hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros.

Dywedodd y cleifion eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn y practis a'i bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Rhaid cofnodi nodiadau manylach sy'n adlewyrchu'n llawn yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion yng nghofnodion y cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 39 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Dim byd i'w ddweud heblaw dal ati â'r gwasanaeth gwych a ddarperir eisoes”

“Rwyf bob amser wedi cael triniaeth ardderchog yn y practis hwn. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas”

“Mae'r gwasanaeth bob amser yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Ni fyddwn yn mynd i unrhyw le arall”.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Byddai negeseuon atgoffa SMS yn helpu!”

“Sicrhau bod rhagor o deintyddion y GIG ar gael yn y practis”

“Peiriant dŵr”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth hybu iechyd yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis a bod y wybodaeth honno hefyd yn y taflenni i'r cleifion eu darllen a'u cadw. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, a sut i gynnal iechyd y geg da ar gyfer plant ac oedolion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith yn y practis yn helpu i ddiogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli wrth ymyl y drws ffrynt ac ar wahân i'r ardaloedd aros amrywiol, a oedd yn golygu bod y staff yn gallu cynnal sgysiau â'r cleifion, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, heb gael eu clywed. Cadarnhaodd y staff, pe bai claf am gael sgwrs fwy preifat yna byddai hyn yn digwydd yn un o'r deintyddfeydd gwag.

Gwnaethom nodi bod y staff yn cau drws pob deintyddfa yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn helpu'r staff i gydnabod pwysigrwydd cadw gwybodaeth y cleifion yn gyfrinachol ac yn disgrifio sut y dylid defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Gwelsom nad oedd y 9 Egwyddor¹ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC) ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r CDC yn ei gwneud hi'n ofynnol bod yr egwyddorion yn cael eu harddangos mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safonau gofal y gallant ddisgwyl eu derbyn gan weithwyr deintyddol proffesiynol. Cawsom sgwrs â'r rheolwr cofrestredig am hyn, a drefnodd i gopïau o'r safonau gael eu harddangos yn yr ystafell staff a'u rhoi yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion yn y brif ardal aros.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth am ffioedd i gleifion y GIG a phrisiau ar gyfer triniaethau preifat yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd copïau o daflen wybodaeth y practis i gleifion ar gael ar ddesg y dderbynfa. Gwnaethom edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion a chopi o ddatganiad o ddiben y practis² a gwelsom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod enwau'r deintyddion yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad, ac roedd enwau a rhifau CDC y tîm deintyddol cyfan yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn unol â'r canllawiau proffesiynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Cadarnhaodd y practis y byddai'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y cleifion nad Saesneg yw eu mamiaith i'w helpu i ddeall pob agwedd ar eu gofal a'u triniaeth.

¹ Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

² Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y gallai'r practis wneud mwy i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigol ei gleifion drwy roi gwybod iddynt fod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais. Cafodd poster yn nodi hyn ei greu yn ystod yr arolygiad, a'i arddangos er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom nad oedd yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion yn ystod apwyntiadau bob amser yn cael eu cofnodi yn eu cynllun triniaeth ysgrifenedig yn eu cofnodion. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion yn cael eu cofnodi yn unol ag arferion gorau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion yn ystod apwyntiadau yn cael eu cofnodi'n gyson yn y cynlluniau gofal yng nghofnodion y cleifion.

Gofal amserol

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cyfathrebu drwy wasanaeth negeseuon uniongyrchol rhwng y dderbynfa a'r deintyddfeydd er mwyn sicrhau bod unrhyw oedi'n cael ei gyfleu'n gyflym i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn cael ei harddangos yn ffenestr y practis. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol³ cyn rhoi unrhyw driniaeth. Wrth fwrw golwg dros gofnodion y cleifion, gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu dogfennu ym mhob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau proffesiynol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Hawliau pobl

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis, er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd gan y practis hefyd bolisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd y practis yn ymrwymedig i sicrhau y gallai pob claf ddod i mewn i'r adeilad. Roedd lle parcio dynodedig ar gael y tu allan i'r practis ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd. Roedd y practis ar ddau lawr ond roedd desg y dderbynfa, yr ardal aros, toiledau addas i gadeiriau olwyn a rhai deintyddfeydd i gyd ar gael ar y llawr gwaelod.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod dulliau ar waith i gasglu adborth gan gleifion am eu profiadau, a oedd yn helpu'r practis i fonitro ansawdd y gwasanaethau deintyddol cyffredinol roedd yn eu darparu. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn y dderbynfa a dosbarthwyd holiadur i nifer fach o gleifion drwy gydol y flwyddyn. Gallai'r cleifion hefyd gwblhau adolygiadau ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook a Google. Dywedwyd wrthym fod canlyniadau'r holiaduron a sylwadau

³ Mae hanes meddygol claf yn helpu'r deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth deintyddol claf.

penodol gan gleifion yn cael eu monitro a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd lle y bo angen.

Roedd y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder â'r practis am eu gofal wedi'i chynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn y brif ardal aros. Gwelsom fod y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC a'r bwrdd iechyd lleol er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n cael triniaeth breifat neu driniaethau'r GIG â phwy y dylent gysylltu os nad ydynt yn fodlon ar ganlyniad eu cwyn.

Roedd polisi cwynion ar wahân ar gael i'r staff, a gwelsom y byddai'n sicrhau y gellid ymdrin â chwynion cleifion yn effeithiol ac yn amserol. Gwelsom fod ffeil gwynion yn cael ei chadw i gofnodi'r holl gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion ac ymatebion y practis i'r cwynion hynny.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

At ei gilydd, cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-x yn ddiogel.

Roedd mesurau dihalogi a rheoli heintiau addas ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau.

Roedd y practis yn cyrraedd y safonau ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd pob ardal yn y practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis. Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith a chyflwynwyd rhestr wirio iechyd a diogelwch fisol yn ddiweddar er mwyn helpu i fonitro bod y staff yn dilyn y gweithdrefnau, a oedd yn enghraifft o arferion da.

Roedd asesiadau risg wedi'u cynnal yn flynyddol er mwyn helpu i nodi unrhyw risgiau posibl i'r staff a'r cleifion a'u lliniaru. Roedd poster cyfraith iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn yr ystafell staff er mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod profion larymau wythnosol wedi cael eu cynnal a'u cofnodi mewn cofnodlyfr.

Roedd arbenigwr diogelwch tân wedi cynnal asesiad risg tân yn 2015 ac roedd y practis wedi bod yn adolygu'r asesiad risg bob blwyddyn. Gwelsom fod polisi diogelwch tân ar waith a oedd yn nodi y dylai arbenigwr risg tân gynnal asesiad risg tân o leiaf bob pum mlynedd. Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig am hyn, a gadarnhaodd y byddai'n trefnu bod asesiad risg tân newydd yn cael ei gynnal yn unol â'r polisi.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, a gwelsom fod arwydd dim smygu bach wedi'i arddangos y tu allan i'r practis i atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁴. Rydym yn argymhell bod y practis hefyd yn trefnu bod arwydd dim smygu yn cael ei arddangos y tu mewn i'r practis, yn unol â chanllawiau di-fwg.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe bai argyfwng neu drychineb naturiol. Roedd rhestr o fanylion cyswllt pob aelod o'r staff a chontractwyr busnes hanfodol mewn argyfwng yn cael ei chadw, a oedd yn enghraifft o arfer gorau.

Roedd y staff yn gallu newid mewn sawl ystafell y gellir ei chloi ym mhob rhan o'r practis er mwyn helpu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis drefnu bod arwydd dim smygu yn cael ei arddangos y tu mewn i'r practis.

⁴Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Roedd gan y practis ddulliau ac offer priodol i sicrhau bod adnoddau deintyddol yn cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn effeithiol. Roedd awtoclafau wedyn yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses sterileiddio awtomatig. Gwelsom fod y staff wedi bod yn cadw cofnodlyfr i ddogfennu'r gwiriadau dyddiol ac wythnosol a gwblhawyd er mwyn sicrhau bod yr awtoclafau yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu.

Gwelsom fod y trefniadau hyn, ynghyd â mesurau rheoli heintiau eraill megis hylendid dwylo, trefniadau cadw tŷ a glanhau addas wedi'u hamlinellu mewn polisi rheoli heintiau.

Roedd gwastraff peryglus (clinigol) o'r deintyddfeydd yn cael ei storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath yn ddiogel.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi rhoi meddyginiaeth a oedd yn nodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau sydd ar waith yn y practis mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a oedd yn enghraifft o arfer rhagorol.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR). Roedd pedwar aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw un yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arno yn briodol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi yn cynnwys siartiau llif a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd a'r asiantaethau y dylid cysylltu â nhw os bydd unrhyw faterion diogelu yn codi, a gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arferion da.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom sgwrs ag aelodau o'r staff ac roeddent yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Cawsom sgwrs â'r rheolwr cofrestredig am y fersiwn newydd o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019,⁷ a chadarnhaodd y

⁶ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

⁷Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn diweddarau ac yn egluro rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion yng Nghymru. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

byddai'n sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y gweithdrefnau newydd.

Roedd pob aelod presennol o staff y practis wedi cael gwiriad gan y ⁸Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn helpu'r gwasanaeth i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol sy'n nodi y dylai pob aelod o staff fod o gymeriad da ac yn addas i weithio mewn practis deintyddol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol⁹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu. Gwelsom dystiolaeth hefyd i ddangos bod y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio.

⁸ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

⁹ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd y practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol, ac yn parhau i'w cynnal, er mwyn helpu i fonitro a chyfrannu at y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod archwiliadau ar reoli heintiau, ansawdd delweddau pelydr-X, cofnodion cleifion, hylendid dwylo a gwastraff clinigol wedi'u cwblhau a bod y practis wedi gweithredu arnynt.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Eglurodd y rheolwr cofrestredig fod y staff yn aml yn cydweithio i nodi meysydd i'w gwella yn y practis, a gwnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru i wneud hyn mewn ffordd fwy ffurfiol.

Gallai'r practis hefyd ystyried cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella eraill sydd ar gael gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, megis yr Archwiliad Integredig ar gyfer Rhoi'r Gorau i Smygu a'r Adnodd Gwella Ansawdd ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio, er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion ymhellach.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis sawl polisi ar waith yn nodi'r gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig a dywedwyd wrthym fod copïau o'r data yn cael eu creu a'u cadw oddi ar y safle yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir adfer y data gwreiddiol pe byddai unrhyw beth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda ar y cyfan, yn unol â'r canllawiau proffesiynol, a'u bod yn helpu i hybu llesiant a diogelwch y cleifion.

Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella er mwyn hybu llesiant a diogelwch cleifion yn llawn:

- Rhaid cofnodi Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE) a gynhelir ar blant yn gyson yng nghofnodion y cleifion
- Ni ddylid defnyddio amalgam deintyddol i drin plant o dan 15 oed, oni bai bod yr ymarferydd deintyddol o'r bod hynny'n hollol angenrheidiol, yn unol â chyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cadw cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Rhaid atgoffa ymarferwyr deintyddol am gyfarwyddeb yr UE na ddylid defnyddio amalgam deintyddol i drin plant o dan 15 oed, oni bai bod yr ymarferydd deintyddol o'r farn bod hynny'n hollol angenrheidiol. Pe bai angen, rhaid cofnodi'r cyfiawnhad dros ei ddefnyddio yn nodiadau'r claf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom strwythur rheoli ac arwain effeithiol ar waith yn y practis a oedd yn helpu'r staff i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol.

Roedd trefniadau llywodraethu da ar waith, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cyflawni'r hyfforddiant gofynnol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth glinigol berthnasol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, a oedd wedi cael eu hadolygu, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y ddau brif ddeintydd, sef yr unigolion cyfrifol enwebedig, sy'n cyd-berchen ar Cox and Hitchcock Dental Group¹⁰. Caiff y prif ddeintyddion eu cefnogi'n dda gan

¹⁰ Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

reolwr y practis, sef y rheolwr cofrestredig enwebedig¹¹, a'r rheolwr clinigol a benodwyd yn ddiweddar.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Roedd set gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu bob dwy flynedd a bod y staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom hefyd fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a bod y practis wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Cadarnhaodd y rheolwyr cofrestredig eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y rheoliadau o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os bydd claf yn cael anaf difrifol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan yr aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Roedd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

¹¹ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Cynhelir cyfarfodydd practis yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i drafod unrhyw broblemau, nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod ac maent ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Roedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnig cyfleoedd i'r staff glywed adborth am eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd DPP.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Roedd polisi recriwtio yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio aelodau newydd o'r staff parhaol ac yn ôl yr angen, a disgrifiodd y rheolwr cofrestredig raglen sefydlu addas a fyddai'n cael ei dilyn er mwyn helpu aelodau newydd o'r staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Gwnaethom sylwi nad oedd y polisi'n cynnwys AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon; cafodd hyn ei unioni can y staff yn ystod yr arolygiad.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Cox and Hitchcock Dental Group, Ffordd Llanthewy

Dyddiad arolygu: 11 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cox and Hitchcock Dental Group, Ffordd Llanthewy

Dyddiad arolygu: 11 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion yn ystod apwyntiadau yn cael eu cofnodi'n gyson yn y cynlluniau gofal yng nghofnodion y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20	Cyfarfod yn cael ei gynnal gan David Cox gyda phob deintydd cyswllt. Cofnodi holl opsiynau triniaeth yng nghofnodion y cleifion o hyn ymlaen.	David Cox	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis drefnu bod arwydd dim smygu yn cael ei arddangos y tu mewn i'r practis.	Rheoliadau Mangreoedd etc. (Cymru) 2007	Arwyddion bellach yn cael eu harddangos y tu mewn i'r practis.	Sarah Rees	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid cadw cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20	Cyfarfod yn cael ei gynnal gan David Cox gyda phob deintydd cyswllt. O hyn ymlaen, rhaid cadw cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	David Cox	Cwblhawyd
Rhaid atgoffa ymarferwyr deintyddol am gyfarwydddeb yr UE na ddylid defnyddio amalgam deintyddol i drin plant o dan 15 oed, oni bai bod yr ymarferydd deintyddol o'r farn ei fod yn hollol angenrheidiol. Pe bai angen, rhaid cofnodi'r cyfiawnhad dros ei ddefnyddio yn nodiadau'r claf.		Cyfarfod yn cael ei gynnal gan David Cox gyda phob deintydd cyswllt. Rhaid atgoffa pob deintydd cyswllt am gyfarwydddeb yr UE am ddefnyddio amalgam gyda phlant dan 15 oed.	David Cox	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer yr adran hon.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Rees

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 09 Ebrill 2020